

# Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion

Brynglas Drive

Casnewydd

NP20 5QS

Tel/Ffôn: 01633 850804



E-mail/E-Bost: [ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales](mailto:ysgol.gymraegbroteyrnon@newportschools.wales)

[ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru](mailto:ysgol.gymraegbroteyrnon@ysgolioncasnewydd.cymru)

Gwefan/Website: [broteyrnon.cymru](http://broteyrnon.cymru)

Pennaeth / Headteacher: Mrs Lona Jones-Campbell

*“Ysgol i Esgor Gobeithion”*  
*“A Place to Nurture our Aspirations”*

31/03/25

Annwyl Rieni/Warchodwyr,

Yn ystod y tymor mae yna nifer o ddigwyddiadau llawn bwrlwm a thipyn o newidiadau ar y safle. Dyma gyfle i rannu ychydig o rhain gyda chi.

Dear Parents/Guardians,

During the term there have been a number of exciting events and quite a few changes on site. This is an opportunity to share a few of these with you.

Diolch i Mr Oleszko am gynnal gweithdai E-ddiogelwch gyda phlant B1 i 6 ar y 23ain o Ionawr. Bu plant Blwyddyn 3 a 4 yn brysur iawn yn cystadlu yng nghystadleuaeth tag rygbi ym mis Chwefror ac enillon nhw 4 gem allan o 5 ac yna fe aethon nhw 'mlaen i'r rownd cyn derfynnol. Bu plant Blwyddyn 6 yn gwneud pob math o weithgarwch awyr agored yn ystod eu hymweliad preswyl i Abernant. Cystadluodd criw o blant Blwyddyn 6 yng Ngwyl Rygbi Casnewydd ac roeddent wedi ennill pob gem yn ei grŵp.

Thank you to Mr Oleszko for conducting E-safety workshops with children from Y1 to 6 on the 23rd of January. Year 3 and 4 children were very busy competing in the rugby tag competition in February and they won 4 games out of 5 and then they went on to the pre-final round. Year 6 children completed an array of outdoor activities during their residential visit to Abernant. A group of Year 6 children competed in the Newport Rugby Festival and won every game in their group.



Yn rhan o weithgarwch prosiect “Adar” Blwyddyn 1 a 2 daeth lluo o adar i'r ysgol gyda chwmni Animal Interactive ac roedd yna tipyn o gyffro. Yn ystod mis Chwefror bu plant Blwyddyn 5 a 6 yn brysur iawn yn dysgu sgiliau peintio gyda dyfrliwiau o dan arweiniad Mr Lawless.

As part of the Year 1 and 2 "Birds" project activity, a lot of birds came to the school with the Animal Interactive company and there was much excitement. During February Year 5 and 6 children were busy learning painting skills with water colors under the guidance of Mr Lawless.



## Murlun Dyheadau

## Aspirations Mural



Yn dilyn hanner tymor mis Chwefror croesawyd pawb nôl i'r safle gyda ein murlun newydd Dyheadau ar iard yr ysgol. Murlun sy'n pwysleisio ei bod hi'n bwysig i bawb anelu am y sêr ac ein bod yn Ysgol i Esgor Gobeithion.

Hoffwn ddiolch i Walls by Paul am wireddu ein syniadau ac am gyfuno syniadau'r Cyngor Ysgol yn gelfydd yn ogystal â syniadau a gasglwyd gan ddisgyblion ar gyfer y 2 prif gymeriad.

Following the February half term everyone was welcomed back to the site with our new Aspirations mural on the school yard. A mural that emphasizes that it is important for everyone to aim for the stars and that we are a school that nurtures those Aspirations.

I would like to thank Walls by Paul for realising our ideas and for skillfully combining the School Council's ideas as well as those collected by pupils for the 2 main characters.

## Ymweliad gan y Bardd Alex Wharton Visit by the Poet Alex Wharton

Ar y 14eg o Fawrth fe ddaeth Alex Wharton i'r ysgol yn dilyn cais gan yr ysgol i gynnal gweithdai barddoni gyda phlant Blwyddyn 3, 4, 5 a 6. Mae nifer o blant wedi cael eu symbylu i fwynhau darllen mwy o farddoniaeth yn enwedig llyfrau gan yr awdur.

On the 14th of March, following a request by the school, Alex Wharton came to conduct poetry workshops with children in Year 3, 4, 5 and 6. A number of children have been stimulated to enjoy reading more poetry especially books by the author.



## Eisteddfod 2025 Eisteddfod

Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol ar y 7fed o Fawrth ac roedd yna tipyn o gyffro yn ystod y seremonïau. Roedd lluniau hyfryd o'r plant yn eu gwisgoedd ym mhapur Yr Argus.

The School Eisteddfod was held on the 7th of March and there was quite a bit of excitement during the ceremonies. There were lovely pictures of the children in their costumes in the Argus paper.



## Wythnos Gwyddoniaeth Science Week

Yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd nifer o weithdai i gefnogi gweithgarwch Wythnos Gwyddoniaeth. Roedd yr ysgol yn ffodus i fod yn llwyddianus mewn cais ar gyfer derbyn nifer o weithdai. Bu Blwyddyn 3 yn rhan o weithdy Arbrawf Batris Darnau Arian yn fyw ar Microsoft Teams o dan arweiniad Prifysgol Abertawe.



During March a number of workshops were held to support Science Week activities. The school was fortunate to be successful in an application to receive a number of workshops. Year 3 took part in a live Coin Battery Experiment workshop on Teams led by Swansea University - Penny Battery.

## Wythnos Gwyddoniaeth Science Week



18/3/25 - Mynychodd Blwyddyn 4, 5 a 6 sesiwn fyw ar Microsoft Teams gyda'r Fforiwr Arctic - Nanou Blair Gould.

18/3/25 - Years 4, 5 and 6 attended a live session on Microsoft Teams with Arctic Explorer Hanna Yevchun.



Ar yr 17eg o Fawrth cafodd Blwyddyn 5 a 6 diwrnod yn llawn gweithgareddau. Mynychodd Blwyddyn 5 a 6 sesiwn wyneb yn wyneb yn Neuadd yr Ysgol gyda'r Fforiwr Antarctig Hanna Yevchun.

On the 17th of March Year 5 and 6 had a day full of activities. Years 5 and 6 attended a face to face session in the school hall with Antarctic Explorer Hanna Yevchun.



Cawsom hefyd weithdy gyda Thîm Newid Hinsawdd Cyngor Dinas Casnewydd a Sbarcynni.

They also had a workshop with Newport City Council's Climate Change Team and Energy Sparks.

## Prosiect Plannu a Rhannu yn Parhau Planting and Sharing Project Continues



Ar hyd a lled y safle mae 'na llawer o waith plannu wedi digwydd gan osod 91 o goed llwyni i annog bywyd gwylt ar y safle.

All over the site there has been a lot of planting work, installing 91 trees and shrubs to encourage wildlife on the site.



**Amser Rhigwm Mawr Cymru** – Bu plant y dosbarth Meithrin a Derbyn yn mwynhau parti Mistar Urdd ac yna adrodd rhigymau yn rhan o ddiwrnod Bwrlwm y Rhigwm i Bawb 2025. Llongyfarchiadau i Macsen Savery a fuodd yn siarad am bwysigrwydd mwynhau llenyddiaeth yn rhan o ddigwyddiad Book Trust Cymru ar y 17/3/25.



**Big Welsh Rhyme Time**, - The children from the Nursery and Reception classes enjoyed the Mistar Urdd party and then recited rhymes as part of the Rhyming Fun for Everyone 2025 event . Congratulations to Macsen Savery who spoke about the importance of enjoying literature as part of the Book Trust Cymru event on 17/3/25.

## Cerflun Rhainnon Art Mural

Ar Ddydd Iau y 6ed o Fawrth bu Rhiannon Art yn brysur yn cydweithio gyda phlant yr ysgol i greu murlun Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion a mae'r darn gorffenedig i'w weld yn neuadd yr ysgol. Mae'r murlun yn cynnwys 5 gair credo'r ysgol, arwyddair yr ysgol a phennill o un o ganueon sioe gerdd Blwyddyn 6 y clwstwr.

On Thursday the 6th of March, Rhiannon Art was busy collaborating with the school children to create an Ysgol Gymraeg Bro Teyrnion mural and the finished piece can be seen in the school hall. The mural contains the 5 school creed words, the school's motto and a verse from one of the songs from the Year 6 cluster musical



## Eisteddfod Cylch yr Urdd Local Eisteddfod

Bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar Ddydd Sadwrn y 15fed o Fawrth ac rydyn ni'n llawn balchder o bob un ohonynt. Cawsom ddiwrnod llwyddianus iawn ac fe fydd pawb a gofodd wobr cyntaf ac ail wobr yn cynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Sir ar y 5ed o Ebrill.

A number of the school children competed in the Urdd Local Eisteddfod on Saturday 15th March and we are very proud of each and every one of them. We had a very successful day and everyone who won first and second prize will represent the school at the County Eisteddfod on the 5th of April.

Cystadleuaeth	Competition	Canlyniad/Result
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau	Yr 2 and Under Recitation	1st / 1af Theo Slocombe 3ydd / 3rd Connie Haines
Llefaru Unigol Bl.3 a 4	Yr 3 &4 Recitation	2il / 2nd Heti Andrews
Unawd Bl.2 ac iau	Yrs 2 and Under Solo	1af / 1st Riley Newberry
Unawd Bl.3 a 4	Yrs 3&4 Solo	1af / 1st Mali Roderick
Unawd Bl.5 a 6	Yrs 5&6 Solo	1af /1st Zachariah Islam
Parti Unsain	Union Party	2il / 2nd

Mae'r cystadleuthau canlynol hefyd yn cael eu cynnal yn yr Eisteddfod Sir ar y 5ed o Ebrill  
The following competitions are also being held in the Eisteddfod on the 5th of April

Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4	Yrs 3&4 Cerdd Dant Solo	Mali Roderick Elaria Yohannes
Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6	Yrs 5&6 Cerdd Dant Solo	Zachariah Islam Lilly Hawrott
Parti Cerdd Dant	Cerdd Dant Party	

Heb ymroddiad ac ymdrechion y staff o'u gwaith di-flino i hyfforddi'r plant adeg egwyl cinio, cyn ysgol ac ar ôl ysgol ni fyddai hyn yn bosib ac hefyd am fynychu'r Eisteddfod ar Ddydd Sadwrn.

Without the dedication and efforts of the staff through their tireless work to train the children at lunch breaks, before school and after school this would not be possible aswekk as attending the Eisteddfod on Saturday.



Diolch hefyd i bawb oedd wedi helpu gyda'r stiwardio – staff a rheini.

Thanks also to everyone who helped with the stewarding - staff and parents.



## Diogelwch ar y Safle

### Trefniadau Diwedd Dydd

## Safety on the Site

### End of Day Arrangements

<p>Hoffwn atgoffa pawb am drefniadau diwedd dydd ar y safle oherwydd bod nifer o gerbydau trafndiaeth ysgol yn defnyddio'r maes parcio o flaen prif fynedfa'r ysgol ar ddiwedd dydd.</p> <p>Rydyn ni wedi gosod posteri yn y lleoliadau amrywiol i'ch cynorthwyo. Hoffwn ddiolch i bawb oedd mor barod i gydweithredu ar ddiwedd dydd wrth i ni atgoffa pawb am y trefniadau.</p>	<p>I would like to remind everyone about end of day arrangements on the site because a number of school transport vehicles use the car park in front of the school's main entrance at the end of the day.</p> <p>We have placed posters in the various locations to assist you. I would like to thank everyone who was so willing to cooperate at the end of the day as we reminded everyone about the arrangements.</p>
<p><b>3:15</b> Mae pob rhiant/gwarcheidwad sy'n casglu plant o safle'r ysgol ar ddiwedd dydd angen ciwio ar Lwybr y Berllan.</p> <p><b>**Ciwio ar Lwybr y Berllan</b> Peidiwch â chiwio mewn un rhes er mwyn atal y ciw rhag ymestyn i'r llwybr ger y briffordd</p>	<p><b>3:15</b> All parents/guardians collecting children from the school site at the end of the day must queue on the Orchard Path.</p> <p><b>**Queuing on Orchard Path</b> Please do not queue in a single file in order to avoid the queue extending onto the path by the highway</p>
<p><b>Trefniadau Diwedd Dydd</b> Teuluoedd sy'n casglu plant o ddrysau allanol 3 a 4 yn unig.</p> <p>Rhaid ciwio ar lwybr y berllan a <b>pheidiwch agor y giât i gael mynediad i bafin y prif faes parcio</b> (sy'n eich tywys ar draws y maes parcio) <b>tan fod y cerbydau trafndiaeth ysgol wedi gadael y maes parcio.</b></p>	<p><b>End of Day Arrangements</b> - Families that are only collecting children from Year 3 and 4 external doors.</p> <p>All adults must queue on the orchard path and <b>do not open the gates to gain access to the main car park path</b> (which takes you across the car park) <b>until all the school transport vehicles have vacated the car park.</b></p>
<p><b>Trefniadau Diwedd Dydd</b> - Cylch Meithrin Brynglas</p> <p>Oedolion sy'n casglu plant o Gylch Meithrin Brynglas sicrhewch eich bod wedi gadael y maes parcio erbyn 3:15yp.</p> <p>Os mae'r 'run oedolion yn casglu plant o Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon mae angen i bawb ymuno a'r ciw sydd ar y llwybr wrth y berllan.</p>	<p><b>End of Day Arrangements</b> - Cylch Meithrin Brynglas</p> <p>Adults that are collecting children from Cylch Meithrin Brynglas must ensure they have left the car park by 3:15pm.</p> <p>If the same adults are collecting children from Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon everyone needs to join the queue on the path by the orchard.</p>
<p><b>****Pan yn ymweld â safle'r ysgol, manteisiwch ar ddefnyddio maes parcio'r ysgol sydd wrth ochr y cae chwarae.</b></p>	<p><b>****When visiting the school site please take advantage of using the school car park beside the school playing field.</b></p>

Eid Mubarak i'r holl deuluoedd o fewn ein cymuned.

Eid Mubarak to all the families within our community.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth

Thank you for your co-operation and support

Mrs Lona Jones-Campbell  
(Pennaeth/Head Teacher)